

**Arolygiad o Bractis  
Cyffredinol (Ile rhoddwyd  
rhybudd)  
Meddygfa Park Lane  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm  
Taf**

Dyddiad yr Arolygiad: 14 Mawrth  
2017

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
5.	Y Camau Nesaf.....	20
6.	Methodoleg .....	21
	Atodiad A.....	23
	Atodiad B.....	26

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Feddygfa Park Lane yn 39 Lôn y Parc, Tonyrefail, Porth CF39 8AG ar 14 Mawrth 2017. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, a chynrychiolwyr o Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf.

Ymchwiliodd AGIC i sut mae Meddygfa Park Lane yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Rhoddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau Ymarfer Meddygol Cyffredinol (meddygon teulu), ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Meddygfa Park Lane yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 9,000 o gleifion yn ardal Tonyrefail ar hyn o bryd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau feddyg teulu sy'n bartneriaid a thri meddyg teulu cyflogedig; rheolwr practis, rheolwr cynorthwyol y practis, ysgrifennydd meddygol; dwy nyrs practis llawn amser, un cynorthwydd gofal iechyd llawn amser ac un rhan amser, dau dderbynnydd llawn amser a phum derbynnydd rhan amser.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

- Apwyntiadau meddyg teulu a nyrs practis
- Iechyd plant ac imiwneiddio plant
- Clinig cyn geni
- Clinig babanod
- Clinig diabetes
- Clinig epilepsi
- Clinig iechyd meddwl
- Ffisiotherapi
- Clinig camddefnyddio sylweddau
- Clinig gwrth-geulo
- Clefyd coronaidd y galon
- Clinig iechyd henoed
- Clinig pwysedd gwaed uchel
- Mân lawdriniaethau
- Clinig anadlu
- Clinig menywod iach

Daeth dau aelod lleol o gyngor iechyd cymuned Cwm Taf gyda ni yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd Meddygfa Park Lane yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod tystiolaeth fod Meddygfa Park Lane yn darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel ar gyfer cleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal .

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg, ei reoli a'i arwain yn dda gan reolwr y practis a'r meddygon teulu sy'n bartneriaid. Canfuom hefyd y rhoddwyd cyfleoedd i aelodau o'r tîm gael hyfforddiant yn barhaus. Canfuom hefyd y rhoddwyd cyfleoedd i bob aelod o'r tîm gyfrannu at gynlluniau ymarfer, a'u bod yn trin ei gilydd, a'u cleifion, â pharch a charedigrwydd.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cynnwys Grŵp Cyfranogiad Cleifion sefydledig a Hyrwyddwr Gofalwyr
- Roedd cynnwys cofnodion cleifion o safon dda iawn.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Arweinyddiaeth dda a thrafodaethau agored rhwng pob disgyblaeth yn y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer gofal iechyd.
- Cyfleusterau yn y dderbynfa ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd neu glywed.
- Prosesau ac archwiliadau cyflogaeth a recriwtio.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i ddod i adnabod eu cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr a chanfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm. Roedd yn gadarnhaol bod Grŵp Cyfranogiad Cleifion sefydledig a Hyrwyddwr Gofalwyr yn y practis.

Roedd y practis yn darparu ystod dda o wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael yn y Gymraeg, a hynny yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) 2016 (dogfen ymgynghorol).

Roedd dau aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf yn bresennol yn y feddygfa ar ddiwrnod ein harolygiad. Eu swyddogaeth oedd casglu barn y cleifion ynghylch y gwasanaethau mae Meddygfa Park Lane yn eu darparu drwy ddsbarthu holiaduron a thrwy sgyrsiau wyneb yn wyneb â chleifion a gofalwyr.

Mae'r cyngor iechyd cymuned wedi cynhyrchu adroddiad sy'n dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ganddo. Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn Atodiad B.

### **Cadw'n iach**

Safon 1.1 – Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

*Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofalwyr unigolion nad ydynt yn gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i amddiffyn a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.*

**Gwnaethom adolygu cynnwys cofnodion cleifion electronig pob un o'r clinigwyr a oedd yn gweithio'n rheolaidd yn y practis, cyfanswm o 36 cofnod. Cafodd pedair set o gofnodion gan bob un o'r pum meddyg, dwy nyrs a dau gynorthwydd gofal iechyd, ynghyd â chofnodion o chwe ymweliad cartref eu harchwilio hefyd. Roeddem o'r farn bod safon gwaith pob aelod o'r staff o ran cadw cofnodion yn ardderchog.**

Canfuom fod staff clinigol wedi rhoi digon o wybodaeth i gleifion am eu cyflwr iechyd, yr archwiliadau oedd eu hangen, ac opsiynau ar gyfer rheoli eu hiechyd a'u lles.

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd/ffordd o fyw yn cael ei harddangos yn y man aros i gleifion a'r ystafelloedd ymgynghori unigol, i gleifion fynd â hi adref gyda nhw er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol.

Roedd taflen y practis ar gael yn rhwydd i bobl, ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau a sefydliadau cymorth. Roedd teledu yn y man aros a oedd yn dangos gwybodaeth hyrwyddo iechyd perthnasol i gleifion. Canfuwyd bod pob gwybodaeth o'r fath yn berthnasol a chyfredol. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg oedd taflen y practis ar gael. Cadarnhaodd y practis y byddent yn sicrhau y byddai'r daflen yn cael ei chyfieithu ac y byddai ar gael yn y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ar gyfer Gofal Iechyd.

Roedd gwefan y practis yn darparu gwybodaeth am y practis a'r gwasanaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn gyfredol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis datblygu ei wefan ymhellach er mwyn ymgysylltu ag unigolion y mae'n well ganddynt ddefnyddio adnoddau electronig. Dylid datblygu'r wefan i ddarparu gwybodaeth am yr amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn y practis a hefyd i ddarparu mynediad rhwydd i weithdrefn gwyno'r practis. Gallai hefyd ddarparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd, cyngor ar sut i reoli mân afiechydon, cyfeirio cleifion at ymarferwyr cymunedol eraill fel fferyllwyr ac optometryddion, a chysylltu ag adnoddau cymunedol eraill y mae gan y practis berthynas dda â rhai ohonynt.

Ychydig iawn o wybodaeth, nad oedd yn Saesneg, oedd ar gael i gleifion. Unwaith eto, gallai datblygu'r wefan gynorthwyo staff i ddarparu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol yn iaith ddewisol y claf neu i staff fynd at yr wybodaeth ar ran y claf.

Gofynnir i gleifion newydd i'r practis yn ystod eu hymgyngoriad cychwynol a ydynt yn ofalwr a rhoddir codau READ ar gofnod y claf. Roedd ffurflen gofalwr ar gael yn y dderbynfa hefyd y gallai cleifion ei chwblhau.

Roedd y practis yn gweithio'n gadarnhaol gyda gofalwyr. Roeddem yn gallu cadarnhau bod gan y practis 'Hyrwyddwr Gofalwyr' enwebedig a oedd ar gael i gynorthwyo gofalwyr cleifion. Roedd gwybodaeth am yr hyrwyddwr gofalwyr wedi'i harddangos ar Hysbysfwrdd y Gofalwyr yn y dderbynfa. Roedd yr Hyrwyddwr Gofalwyr wedi mynychu cyrsiau gyda'r bwrdd iechyd. Gellid cynnwys gwybodaeth ar wefan y practis er mwyn hybu'r gwasanaeth hwn ymhellach.

Roedd gan y practis gysylltiadau da iawn gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol. Roedd hyn yn helpu'r practis i gyfeirio cleifion at wasanaethau perthnasol ac roedd rhai sefydliadau'n bresennol yn y practis yn rheolaidd.



Canfuom fod partneriaid y practis a'r staff rheoli yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at waith a datblygiad y clwstwr meddyg teulu<sup>1</sup> yn yr ardal, fel modd o wella gwasanaethau a chefnogi cleifion yn y dyfodol. Roedd y clwstwr hefyd yn darparu gwasanaeth fferyllfa a ffisiotherapi'n rheolaidd ar gyfer y practis.

### **Gofal ag urddas**

Safon 4.1 – Gofal ag urddas

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol.*

Canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff ar y cyfan. Gwelsom fod staff yn cyfarch cleifion a oedd yn bresennol ac ar y ffôn mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chroesawgar, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a chanfod bod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion wedi cael eu hystyried. Roedd pob galwad ffôn y feddygfa'n cael eu derbyn mewn ystafell breifat i ffwrdd o'r dderbynfa; roedd hyn yn golygu bod galwadau'n cael eu cymryd yn gyfrinachol.

Roedd y dderbynfa wedi ei gwahanu oddi wrth y man aros gan ddesg uchel ac roedd sgriniau wedi'u gosod ar y ddesg a oedd yn darparu cyfrinachedd addas yn ystod trafodaethau gyda chleifion.

Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn ymdrin â chleifion. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Roedd gan y practis bolisi hebryngwyr cyfredol. Roedd posteri yn y dderbynfa ac yn y manau clinigol yn dangos bod hebryngwyr ar gael os oedd cleifion yn dymuno hynny. Roedd cofnodion cleifion hefyd yn dangos lle'r oedd cleifion wedi gwrthod hebryngwyr. Cadarnhaodd y practis y byddent yn ymchwilio i hyfforddiant hebryngwyr ar gyfer y staff nad ydynt yn glinigol fel y gallent wneud y gwaith hwn hefyd.

---

<sup>1</sup> Mae bwrdd iechyd lleol unigol y GIG yng Nghymru'n cyfod meddygon teulu a phractisau lleol i greu 'clwstwr' meddygon teulu. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau'n chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal er budd cleifion.

Gwnaethom adolygu rhai nodiadau cleifion ac roedd sawl enghraifft o nodi cydsyniad pan oedd hynny'n briodol.

## **Gofal amserol**

### **Safon 5.1 – Mynediad amserol**

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir.*

Gwelsom fod mynediad at wasanaethau gofal yn dda. Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau dros y ffôn. Fodd bynnag, nid oedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ar-lein yn defnyddio [Fy Iechyd Ar-lein](#)<sup>2</sup>. O drafod â rheolwr y practis a'r meddyg teulu arweiniol, gwelwyd fod hwn yn wasanaeth yr oeddent wedi ystyried ei gyflwyno. Gallai hyn helpu i ysgafnhau'r pwysau o ran trefnu apwyntiadau dros y ffôn.

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ar y diwrnod neu ymlaen llaw. Gallai cleifion nodi a oedd yn well ganddynt weld meddyg teulu penodol. Lle bo'n bosibl, byddai staff yn ceisio hwyluso'r cais, ond os nad oedd y meddyg teulu dewisol ar gael, yna byddai apwyntiad yn cael ei drefnu gyda meddyg teulu arall yn y practis.

Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau a wnaed gan y practis yn electronig, ac roedd gan bob meddyg fynediad uniongyrchol at yr holl ffurflenni atgyfeirio a'r polisïau atgyfeirio lleol. Roedd gan y practis 'Becyn Staff Locwm' a oedd yn esbonio'r prosesau atgyfeirio, ac mae hyn i'w ganmol.

Mae meddygon y feddygfa'n defnyddio eu barn glinigol wrth wneud atgyfeiriadau. Yn 2016, cafodd y practis gyfnod o sawl mis pan roedd meddygon locwm yn cael eu defnyddio'n aml, ac yn anochel, cafodd hyn effaith ar y patrymau atgyfeirio. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys.

## **Gofal unigol**

### **Safon 6.1 – Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

*Mae'n rhaid i'r gofal sy'n cael ei ddarparu barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain, gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.*

---

<sup>2</sup> <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhól/home.jsp>

Roedd mynediad i'r adeilad yn dda ar y cyfan; roedd y fynedfa ar yr un lefel â'r maes parcio.

Nid oedd drysau awtomatig yn y feddygfa; ond os oedd angen cymorth ar rywun i agor y drysau, roedd staff y dderbynfa'n gallu helpu. Awgrymwn fod y practis yn ystyried drysau awtomatig neu ddrysau gyda chymorth pŵer er mwyn gwneud mynediad yn rhwydd i bawb.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Awgrymwn fod y practis yn ystyried drysau awtomatig neu ddrysau gyda chymorth pŵer er mwyn gwneud mynediad yn rhwydd.**

Roedd yr holl fannau a ddefnyddir gan gleifion ar un lefel ac yn hawdd mynd atynt. Roedd toiledau, gan gynnwys toiledau anabl, a chyfleusterau newid babanod wrth y dderbynfa. Nid oedd unrhyw system dolen sain ar gael yn y practis a gallai hyn effeithio ar unrhyw gleifion a oedd yn drwm eu clyw.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis ddarparu cyfleusterau addas i gynorthwyo cleifion sy'n drwm eu clyw.**

Nid oedd unrhyw gyfleusterau mewngofnodi electronig ar gael yn y practis, ac roedd yn rhaid i bob claf adrodd i staff y dderbynfa. Mae'r practis yn ystyried cael cyfleusterau mewngofnodi electronig a allai leihau'r ciwiau wrth ddesg y dderbynfa a chynorthwyo o ran darparu gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.

#### **Safon 6.2 – Hawliau pobl**

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.*

Mae'r practis yn cysylltu â nyrsys ardal ac yn cadw cofnod o gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi; mae hyn yn cael ei ddiweddarau bob mis. Roedd y practis yn darparu ymweliadau cartref i gleifion nad ydynt yn gallu mynychu'r practis.

Nid yw'r practis fel arfer yn cysylltu â chleifion sy'n 'anodd eu cyrraedd', megis gofalwyr neu gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, ond mae'n ystyried darparu gwybodaeth trwy'r nyrs ardal a/neu wasanaethau fferyllol. Mae'r practis hefyd yn ystyried defnyddio'r fferyllydd clwstwr ar gyfer adolygiadau meddyginiaeth cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi a fyddai hefyd yn caniatáu i'r fferyllydd adrodd unrhyw faterion iechyd arall yn ôl.

Dyweddodd staff mai anaml y byddai cleifion yn gofyn am iaith ar wahân i'r Saesneg, ond pe byddai claf nad oedd yn siarad Saesneg yn mynychu yna roedd gan staff fynediad at wasanaeth cyfieithu dros y ffôn. Byddai hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion Cymraeg eu hiaith, oherwydd nid oedd unrhyw staff yn y practis yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg.

Ychydig o wybodaeth ac arwyddion Cymraeg oedd ar gael yn y practis drwyddo draw. Cawsom ein hysbysu mai ychydig iawn o geisiadau a gafwyd gan gleifion i ymgysylltu â'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) 2016 (dogfen ymgynghorol).

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth a'r arwyddion ar gyfer cleifion yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) 2016 (dogfen ymgynghorol).**

#### Safon 6.3 – Gwrando a dysgu o adborth

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai sy'n darparu eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion ar waith gyda chylch gorchwyl sefydledig. Gwnaethom gyfarfod â dau o'r aelodau yn ystod yr arolygiad, ac roedd yn gadarnhaol clywed y cynlluniau oedd ar y gweill i ymgysylltu â grŵp mawr o gleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwella'r wybodaeth oedd ar gael ar wefan y practis ac ymgysylltu â phobl trwy gyfryngau cymdeithasol.

Roedd hysbysfwrdd Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn y cyntedd yn union cyn i gleifion gyrraedd neu adael y dderbynfa. Roedd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion wedi llenwi holiaduron adborth cleifion yn flaenorol a chafodd y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i'r practis. Caiff canlyniadau holiaduron a chofnodion cyfarfodydd Grŵp Cyfranogiad Cleifion eu harddangos ar yr hysbysfwrdd.

Roedd blwch sylwadau/adborth ar gael yn y cyntedd hefyd i gleifion adael eu barn ynglŷn â'r practis.

Roedd y practis yn glynu wrth broses Gweithio i Wella <sup>3</sup>y GIG ar ôl derbyn cwynion ysgrifenedig. Roedd y rheolwr practis yn cadw pob cwyn ysgrifenedig, ac o'r sampl o gwynion y gwnaethom edrych arnynt, roedd yn amlwg bod y practis yn ymdrin â chwynion ysgrifenedig ac ar lafar mewn modd amserol.

Nid oedd cofnod o'r cwynion yr oedd y practis wedi'u derbyn ar lafar. Rhaid i'r practis gadw cofnod o'r rhain a sut yr ymdriniwyd â nhw.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis gadw cofnod o gwynion ar lafar a sut yr ymdriniwyd â nhw.**

Nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion na'r wefan yn cyfeirio at y broses Gweithio i Wella ac mae angen eu diweddarau. Nodwyd hefyd nad oedd yr ymatebion i gwynion bob amser yn hysbysu cleifion o'r broses Gweithio i Wella, ac mae angen cynnwys hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis hysbysu cleifion o'r broses Gweithio i Wella pan fo angen hynny.**

Roedd y practis wedi sefydlu polisi chwythu'r chwiban.

---

<sup>3</sup> Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r trefniadau cyfredol yng Nghymru ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG.

## **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol**

Canfuom fod y tîm staff yn y practis yn rhoi pwyslais sylweddol ar sicrhau bod gwasanaethau diogel o ansawdd da yn cael eu darparu i gleifion yn unol â Safonau Iechyd a Gofal 2016.

Roedd gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu gyda'r nod o ystyried anghenion gwahanol grwpiau o gleifion a helpu i ddarparu hyblygrwydd, dewis a chysondeb gofal. Roedd y practis yn darparu apwyntiadau brys i gleifion, a oedd ar gael ar yr un diwrnod.

### **Gofal diogel**

Safon 2.1 – Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bo modd, eu lleihau a'u hatal.*

Yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis, canfuom fod yr holl fannau yr oedd y cleifion yn cael mynd iddynt yn lân ac yn daclus, a oedd yn lleihau'r perygl o faglu neu syrthio. Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas – y tu allan a'r tu mewn.

Canfuom fod gwiriadau diogelwch, h.y. offer trydanol a diogelwch tân, yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cadw.

Roedd y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiau cyfredol. Hysbyswyd aelodau'r staff pan oedd y polisiau'n cael eu diweddarau ac roedd yn ofynnol iddynt adolygu'r fersiynau diwygiedig. Roedd copïau o'r holl bolisiau ar gael ar system gyfrifiadurol y practis. Fodd bynnag, nid y fersiwn diweddaraf oedd pob un o'r copïau caled, ac nid oedd gan bob aelod o'r staff fynediad i'r man lle'r oedd y polisiau cyfredol yn cael eu storio ar system gyfrifiadurol y practis.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad uniongyrchol at y polisiau diweddaraf.**

Safon 2.4 – Atal a Rheoli Heintiau, a Dadheintio

*Mae angen i gamau atal a rheoli heintiau effeithiol fod yn fater i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion bob dydd ym maes gofal iechyd, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn i bobl gael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.*

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo a thywelion papur ar gyfer sychu dwylo ar gael yn yr holl fannau clinigol a'r toiledau i leihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn y cleifion a'r staff. Roedd peiriant cyflenwi gel dwylo ar gael hefyd yn y dderbynfa.

Roedd y ffeiliau staff a adolygwyd yn cynnwys cofnod o gynnig brechiadau Hepatitis B i'r staff. Roedd hyn yn golygu bod system briodol ar waith i sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

#### Safon 2.6 – Rheoli meddyginiaethau

*Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.*

Wrth adolygu cofnodion cleifion, roeddem yn fodlon fod y practis yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau rheoleiddiol a phroffesiynol.

Roedd proses drylwyr ar waith ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy. Pe gofynnwyd am fwy o bresgripsiwn amlroddadwy na'r hyn a ganiatawyd, roedd yn ofynnol i un o feddygon y practis awdurdodi hynny.

Roedd y practis yn gweithio gyda'r fferylllydd clwstwr i gynnal adolygiadau o ran meddyginiaethau cleifion, neu adolygiadau amlgyffuriaeth.

#### Safon 2.7 – Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.*

Roedd y practis wedi sefydlu polisïau cyfredol amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer y staff. Roedd gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan ar gael ar-lein i'r staff.

Roedd un meddyg teulu a oedd yn bartner yn arweinydd diogelu hefyd, ac roedd y meddyg teulu arall a oedd yn bartner yn arweinydd amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae system gyfrifiadurol y practis yn cael ei diweddarau i amlygu cleifion, gan gynnwys plant a theuluoedd, sydd ar y Gofrestr Amddiffyn, ac mae hyn yn cael ei nodi'n amlwg i'r staff sy'n defnyddio cofnod y claf. Roedd hyn hefyd yn wir gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd y staff wedi dilyn hyfforddiant amddiffyn plant priodol. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant,<sup>4</sup> dylai'r practis sicrhau bod pob meddyg teulu wedi derbyn hyfforddiant at Lefel 3 ac ystyried dilyn yr arfer gorau cyfredol o gynnig hyfforddiant at Lefel 3 i'w nyrsys. Dylai'r practis ystyried hyfforddi staff nad ydynt yn glinigol i lefel 1.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd gyda'r ymwelwyr iechyd yn rheolaidd i drafod unrhyw blant sy'n agored i niwed/mewn perygl, ac yn cadw cofnodion ohonynt.

Nid oedd staff y practis yn gwisgo bathodynau adnabod fel yr argymhellir yn adolygiad AGIC o weithdrefnau amddiffyn plant yng Nghymru, Hydref 2009.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod aelodau'r staff yn gwisgo bathodynau adnabod.***

### **Gofal effeithiol**

Safon 3.1 – Gofal diogel a chlinigol effeithiol

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.*

Roedd y meddygon yn diweddarau eu gwybodaeth o ran canllawiau clinigol yn rhan o'u Cynllun Datblygiad Personol proffesiynol.

Roedd pob cyfathrebiad yr oedd y rheolwr practis yn ei dderbyn yn cael ei ddosbarthu ymysg aelodau priodol o'r staff, gan gynnwys ar ffurf copi caled yn unol â'r hyn yr oedd y meddygon yn ei ddymuno. Byddai meddygon y practis yn cyfarfod ar ddiwedd sesiwn y feddygfa i drafod materion ac ymdrin â nhw. Roedd pob adolygiad a cham gweithredu'n cael eu nodi'n fanwl ar system gyfrifiadurol y practis.

Cawsom ein hysbysu fod gwaith y grŵp clwstwr yn galluogi'r meddygon i gyfarfod wyneb yn wyneb â meddygon o feddygfeydd cyfagos i drafod materion clinigol perthnasol yn ogystal ag ar gyfer gwaith clwstwr yn unig.

---

<sup>4</sup> [Diogelu plant a phobl ifanc: swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd.DOGFEN RYNG-GOLEGOL](#)



Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem yn gallu cadarnhau bod staff yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Yn fwy penodol, cadarnhaodd y staff fod cyfleoedd bob dydd i roi sylw i unrhyw broblemau gwasanaeth cleifion a'u trafod gyda rheolwr y practis a/neu un o'r meddygon teulu.

### **Cadw cofnodion**

#### Safon 3.5 – Cadw cofnodion

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol.*

Roedd yr holl gofnodion cleifion presennol yn electronig ac roedd angen cyfrinair i fewngofnodi. Roedd yr holl gofnodion papur hanesyddol wedi'u storio'n ddiogel mewn manau o'r practis nad oedd cleifion yn mynd iddynt.

Roeddem o'r farn bod safon gwaith pob aelod o'r staff o ran cadw cofnodion yn ardderchog. Disgrifiwyd yr ymgynghoriadau'n fanwl briodol gyda defnydd da o godau READ<sup>5</sup> ar gyfer arsylwi, e.e. pwysedd gwaed, a oedd mewn cod READ ar wahân, a thrwy hynny, roedd modd gwneud chwiliadau manwl gywir a chymharu ymgynghoriadau blaenorol yn haws.

Roedd pob cofnod wedi'i ysgrifennu'n gyfredol, gan gynnwys ymweliadau cartref a ysgrifennwyd ar ddiwrnod yr ymweliad. Roedd pob cofnod yn cynnwys manylion priodol o ran llythrennau cyntaf y staff wnaeth fewngofnodi er mwyn canfod pwy oedd wedi gwneud y cofnod, ac eithrio'r Cynorthwywyr Gofal Iechyd lle'r oedd y system wedi methu ac roedd yn nodi llythrennau cyntaf un meddyg. O archwilio'r system, roedd yn amlwg pwy oedd wedi gwneud y cofnod. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg ar unwaith pan edrychwyd ar yr ymgynghoriad ar sgrin y cyfrifiadur.

---

<sup>5</sup> Codau READ yw'r system [https://en.wikipedia.org/wiki/General\\_Practice](https://en.wikipedia.org/wiki/General_Practice) safonol ar gyfer terminoleg glinigol sy'n cael ei defnyddio mewn ymarfer cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r system yn cefnogi amgodio clinigol manwl o wybodaeth am gleifion, gan gynnwys galwedigaeth, amgylchiadau cymdeithasol, ethnigrwydd a chrefydd, arwyddion clinigol, a symptomau ac ati.

## ***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis adolygu'r system i sicrhau bod modd canfod y llythrennau cyntaf cywir pan fydd cofnodion yn cael eu gwneud ar y system gyfrifiadurol.**

Roedd gan y practis systemau sefydledig ar gyfer rheoli cyfathrebu allanol a mewnol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth glinigol a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion ac yn cael ei rhannu'n brydlon ag aelodau perthnasol o dîm y practis. Roedd y practis wedi sefydlu proses codau READ drylwyr i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfeirnoddi'n gywir.

Roedd y staff yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau amlygu ar y meddalwedd cyfrifiadurol fel bod staff sy'n agor cofnodion bob amser yn cael eu hysbysu o wybodaeth bwysig a pherthnasol am y claf.

Roedd yn amlwg bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ymysg y meddygon a oedd yn gweithio yn y practis, a hynny er mwyn adolygu cyfathrebiad a dysgu oddi wrth unrhyw gyfathrebiad a geir.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Canfuom fod yr arweinyddiaeth ardderchog a ddarperir gan y meddygon teulu a'r rheolwr practis yn arwain at ddiwylliant gweithio cadarnhaol.**

**Roedd y staff yn glir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd a dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan bob aelod o dîm y practis.**

**Canfuom fod hyfforddiant ar waith i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a gwybodaeth i gyflawni eu swyddi perthnasol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r practis wella ei brosesau a'i archwiliadau cyflogaeth a recriwtio.**

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Canfuom arweinyddiaeth effeithiol a thîm staff sefydlog sy'n canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau y gallent ar gyfer eu cleifion. Roedd staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gweithio ac roedd ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth dros y practis, gan gymryd cyfrifoldeb dros wahanol feysydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr.

Roedd y staff yn agored ac yn onest am yr anawsterau yr oedd y practis wedi'u profi yn ystod y 12 mis blaenorol, gyda'r diffyg meddygon a nyrsys practis. Roedd y practis wedi recriwtio ar gyfer swyddi gwag ac roedd hynny wedi rhoi sefydlogrwydd i'r tîm clinigol.

Roedd gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i arwain y staff yn eu gwaith bob dydd. Roedd hyn yn cynnwys polisi chwythu'r chwiban; Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynegi pryderon i'r uwch staff. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau llywodraethol o ran polisïau.

Roedd nifer fach o staff gweinyddol yn y practis a oedd â swyddi a thasgau diffiniedig. Fodd bynnag, mae eu gwybodaeth am dasgau staff eraill yn amlwg, a gwnaeth y staff ddangos y gallu i fod ar gael wrth gefn i gyflenwi yn ystod absenoldeb staff gweinyddol.

Roedd yn amlwg bod staff o ddisgyblaethau unigol yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u cymheiriaid. Cadarnhaodd y staff fod y cyfathrebu mewnol yn agored, yn barchus ac yn gadarnhaol. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cwrdd â'r rheolwr practis a'r meddygon teulu, a'u bod o'r farn eu bod yn gefnogol ac yn barod i dderbyn awgrymiadau ynglŷn â newidiadau i arferion gwaith y practis. Roedd y rheolwr practis yn cyfarfod yn rheolaidd â'r holl staff gweinyddol, a hefyd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhaedru i'r tîm gweinyddol.

### **Staff ac adnoddau**

Safon 7.1 – Y gweithlu

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion.*

Roedd gan bob aelod o staff yn y practis gytundeb cyflogaeth. Roedd ffeiliau staff yn dangos bod y broses recriwtio'n agored ac yn deg. Roedd ffeiliau staff yn cynnwys gwybodaeth recriwtio bwysig, megis ceisiadau'r staff (ar ffurf CV, *curriculum vitae*), geirdaon a swydd-ddisgrifiadau. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gwblhau holiaduron cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud cais. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis roi'r cyfle hwn i ymgeiswyr yn y dyfodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis roi'r cyfle i ymgeiswyr gwblhau holiaduron cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud cais.**

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y practis wedi cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff clinigol neu weinyddol a gyflogir yn y practis. Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.**

Cawsom ein hysbysu bod y practis yn gwirio bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'u corff proffesiynol cysylltiedig. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cadw cofnod o'r gwiriadau hyn. Rhaid i'r practis gadw cofnod o wiriadau a wneir gyda chyrrff proffesiynol ar gyfer pob unigolyn perthnasol a gyflogir yn y practis, a hynny ar sail barhaol neu dros dro.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Rhaid i'r practis gadw cofnod o wiriadau a wneir gyda chyrrff proffesiynol ar gyfer pob unigolyn perthnasol a gyflogir yn y practis, a hynny ar sail barhaol neu dros dro.**

## 5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n rhaid i'r practis meddyg teulu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Meddygfa Park Lane yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig, ac o fewn amserlen y cytunir arni. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi *cipolwg* o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r practis a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.



## Atodiad A

**Practis Meddygol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Meddygfa Park Lane**

**Dyddiad yr Arolygiad: 14 Mawrth 2017**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
9	Dylai'r practis ystyried gosod drysau awtomatig neu ddrysau gyda chymorth pŵer i sicrhau mynediad rhwydd.	6.1	Bydd y practis yn cael dyfynbrisiau am y gwaith hwn. Byddwn yn holi Bwrdd Iechyd Cwm Taf am grantiau ar gyfer gwneud gwelliannau.	Jan Gooding	6 mis
9	Rhaid i'r practis ddarparu cyfleusterau addas i gynorthwyo cleifion sy'n drwm eu clyw.	6.1	Mae Grŵp Clwstwr y Rhondda yn trefnu offer er mwyn cynorthwyo pobl â nam ar y synhwyrâu i gael mynediad, a gosod systemau dolen glyw symudol yn arbennig. Rydym yn aros yn awr am ddyddiad cyflwyno.	Jan Gooding	6 mis
10	Rhaid i'r practis sicrhau bod y	6.1	Rydym wedi cynnwys posterï	Kim Haines	9 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	wybodaeth a'r arwyddion ar gyfer cleifion yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) 2016 (dogfen ymgynghorol).		Cymraeg yn ein hystafell aros. Byddwn yn diweddarau taflen wybodaeth y practis i gynnwys y Gymraeg. Rydym yn cydweithio â dylunydd ein gwefan er mwyn cynnwys y Gymraeg ar ein gwefan.		
11	Rhaid i'r practis gadw cofnod o gwynion ar lafar a sut yr ymdriniwyd â nhw.	6.3	Rydym bellach yn cadw cofnod o bob cynwys anysgrifenedig a sut yr ymdriniwyd â nhw.	Jan Gooding	Cwblhawyd
11	Rhaid i'r practis hysbysu cleifion o'r broses Gweithio i Wella pan fo angen hynny.	6.3	Byddwn yn cyfeirio cleifion at y broses 'Gweithio i Wella' yn rhan o'n gweithdrefn gwyno.	Jan Gooding	Cwblhawyd
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
12	Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad uniongyrchol at y polisïau diweddaraf.	2.1	Mae'r holl staff wedi cael eu hysbysu o sut i weld pob polisi, gan gynnwys y rhai diweddaraf.	Jan Gooding	Cwblhawyd
14	Rhaid i'r practis sicrhau bod aelodau'r staff yn gwisgo bathodynau adnabod.	2.7	Bydd y practis yn ceisio cael bathodynau enwau priodol ar gyfer yr holl staff a meddygon teulu	Kim Haines	Tri mis
15	Rhaid i'r practis adolygu'r system i sicrhau bod modd canfod y llythrennau cyntaf cywir pan fydd cofnodion yn cael eu gwneud ar y system gyfrifiadurol.	3.5	Cysylltodd y practis â'n cyflenwr meddalwedd i gael cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ychwanegu llythrennau cyntaf y staff cywir.	Jan Gooding	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
18	Rhaid i'r practis roi'r cyfle i ymgeiswyr gwblhau holiaduron cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud cais.	7.1	Bydd y practis yn cydweithio â'n harbenigwyr ar gyfraith cyflogaeth i gael ffurflenni cais priodol.	Jan Gooding	Tri mis
18	Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.	7.1	Bydd y practis yn cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf neu Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am gyngor ar Wasanaethau Ymbarél ar gyfer gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Jan Gooding	6 mis
18	Rhaid i'r practis gadw cofnod o wiriadau a wneir gyda chyrrff proffesiynol ar gyfer pob unigolyn perthnasol a gyflogir yn y practis, a hynny ar sail barhaol neu dros dro.	7.1	Bydd y practis yn cadw cofnod o gofrestrriad staff clinigol parhaol â chorff proffesiynol, a bydd yn gofyn i'r holl staff clinigol dros dro am brawf o aelodaeth â chorff proffesiynol.	Jan Gooding / Kin Haines	Cwblhawyd

## Cynrychiolydd y practis:

**Enw (llythrennau bras): Dr Nerys Callen**

**Teitl:**

**Uwch-bartner**

**Dyddiad:**

**15/5/2017**

## Atodiad B

### Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned

*Adroddiad gan Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf*



## **Cyd-arolygiad o Bractis Meddygol Cyffredinol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned (Adroddiad Cyngor Iechyd Cymuned) Crynodeb o Ymweliad**

Practis:	Meddygfa Park Lane, Tonyrefail
Dyddiad / Amser:	14 Mawrth 2017, 9.30am
Tîm y Cyngor Iechyd Cymuned:	Cwm Taf Anne Roberts – Aelod (Arweinydd) Mary Morris – Aelod
Diben yr Ymweliad:	Rhoi adborth o safbwynt cleifion i dîm arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

### **Adborth cleifion**

Gwnaeth y tîm Cyngor Iechyd Cymuned siarad â 25 o gleifion a chwblhaodd pob un ohonynt holiadur yn ystod yr ymweliad ar y cyd. Mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

### **Pryderon**

- Gwnaeth pob claf gwyno am yr anhawster o ran cael apwyntiadau – mae'r llinellau ffôn bob amser yn brysur, a phan gânt ateb, mae pob apwyntiad wedi'i gymryd.
- Gwnaeth cleifion ddisgrifio diffyg dilyniant o ran perthynas â meddyg penodol a gofal.

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â drysau trwm.

### **Testun canmoliaeth**

- Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion raddio'r practis naill ai'n dda neu'n rhagorol i Dîm Arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
  - Gwnaeth yr ychydig rai na wnaeth hynny nodi mai'r system apwyntiadau oedd yn gyfrifol am hynny.
- Cafodd yr oriau agor eu graddio'n dda neu'n dda iawn ar y cyfan
- Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran ddisgrifio'r amseroedd aros fel da neu dda iawn
- Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn fodlon ar staff y dderbynfa a'r glendid amgylcheddol

### **Nodiadau ychwanegol**

- Gwnaeth pobl fynegi pryder ynghylch tai newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardal a allai orlwytho'r practis ymhellach.
- Mae ardal ar wahân ar gyfer galwadau ffôn – i fyny'r grisiau; h.y. nid yn y dderbynfa
  - 4 o bobl ar ffonau yn ystod amseroedd brig 8–9am a 2.30–3.30pm
  - 2 o bobl am weddill yr amser

### **Arsylwadau**

*Amgylchedd – Allanol*

### **Pryderon**

- Ychydig o le parcio
- Dim arwyddion clir i'r feddygfa o'r brif ffordd.

### **Testun canmoliaeth**

- Fferyllfa y tu allan – mynediad rhwydd i gleifion
- Cyntedd croesawus.

*Amgylchedd – Mewnol*

### **Pryderon**

- Roedd un claf yn anhapus ynglŷn â glendid y toiledau. Roedd y toiledau'n ymddangos yn lân ar y diwrnod, ond nid oedd unrhyw gofnod wedi'i arddangos o'r amser y cawsant eu harchwilio ddiwethaf.
- Drws ffrynt trwm iawn – mae'n bosib ei agor fwy ond mae'n anodd i ddefnyddwyr cadair olwyn, yn enwedig i'r rhai sy'n ymweld ar eu pennau eu

hunain.

- Mae'r drysau mewnol yn drwm hefyd ac maent yn anodd i ddefnyddwyr pram a chadair olwyn

### ***Testun canmoliaeth***

- Trefniadau eistedd
- Cadeiriau gwahanol uchder
- Cyfforddus ac mewn cyflwr da.
- Ardal ac amgylchedd taclus a glân.
- Prysur iawn ond trefnus ac ni wnaeth cleifion aros yn hir ar y cyfan.
- Roedd amser ar wahân ar gyfer clinig babanod; y tu allan i oriau'r feddygfa.
- Toiled anabl.

### ***Nodiadau ychwanegol***

- Gwaith grŵp clwstwr da.
- Adroddiadau am gysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol y 3ydd sector ac eraill.
- Roedd y lifft wedi torri (nid oedd yn ofynnol ar gyfer y cyhoedd).

*Cyfathrebu a'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos*

### ***Pryderon***

- Dim system dolen sain ar gael.
- Sgrin yn anodd ei weld o rannau o'r ystafell aros.

### ***Testun canmoliaeth***

- Roedd yr hysbysfyrddau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Roedd gwybodaeth ardderchog ar y sgrin yn yr ystafell aros, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd a chyfarwyddiadau clir i gleifion.
- Roedd y staff yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn groesawgar i'r tîm.